## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## HYSBYSIAD O ORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CARTREF PRESWYL TŶ GWYN, TY GWYN WAY, FAIRWATER, CWMBRÂN NP44 4TX) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu'r darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 21 Chwefror 2025 o dan y cyfeirnod 23/P/0679/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Cartref Preswyl Tŷ Gwyn, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX) 2026 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw hawliau ymgymerwyr statudol ar gyfer unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim ar bob diwrnod o'r wythnos ac eithrio dydd Mercher a dydd Sul yn Llyfrgell Cwmbrân, Tŷ Gwent, Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1XQ, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2336710.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 19 Mawrth 2026, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

## NOTICE OF STOPPING UP OF HIGHWAYS (TŶ GWYN RESIDENTIAL HOME, TY GWYN WAY, FAIRWATER, CWMBRÂN, NP44 4TX) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice, to provide the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Notice and to improve the length of highway described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with outline planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Torfaen County Borough Council on 21 February 2025 with reference 23/P/0679/FUL and described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Tŷ Gwyn Residential Home, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX) Order 2026 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

The Order makes provision for the preservation of rights of statutory undertakers for any apparatus under, in, on, over, along or across the highway.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge every day of the week except for Wednesday and Sunday at Cwmbrân Library, Gwent House, Gwent Square, Cwmbrân NP44 1XQ, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2336710.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 19 March 2026 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy ofyn amdano oddi wrth:** Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by requesting it from** TransportOrdersBranch@gov.wales

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1

**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar y safle a elwid gynt yn Gartref Preswyl Tŷ Gwyn, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, sydd ag arwynebedd o 31.3 o fetrau sgwâr ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

## SCHEDULE 1

**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway on the site previously known as Tŷ Gwyn Residential Home, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, with an area of 31.3 square metres and marked with zebra hatching on the deposited plan.

## ATODLEN 2

**Y priffyrdd newydd sydd i'w darparu**

1. Darn petryalog ei siâp o briffordd ym mhen gogledd-ddwyreiniol y safle a elwid gynt yn Gartref Preswyl Tŷ Gwyn, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, sydd ag arwynebedd o 54.3 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei farcio â dotwaith ac sydd wedi ei labelu'n "A" ar y plan a adneuwyd.
2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n gyfagos i ran gulaf y briffordd y bwriedir ei chau ar y safle a elwid gynt yn Gartref Preswyl Tŷ Gwyn, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, sydd â siâp crwn yn ei ben gogleddol, sydd wedyn yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain i ffurfio siâp petryal yn y diwedd ar ei ochr ddeheuol. Cyfanswm ei arwynebedd yw 448.7 o fetrau sgwâr, ac mae wedi ei farcio â dotwaith ac wedi ei labelu'n "B" ar y plan a adneuwyd.

## SCHEDULE 2

**New highways to be provided**

1. A rectangular-shaped length of highway located at the north-east end of the site previously known as Tŷ Gwyn Residential Home, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, with an area of 54.3 square metres, marked with stipple and labelled "A" on the deposited plan.
2. An irregular-shaped length of highway situated adjacent to the narrower part of the highway proposed to be stopped up in the site previously known as Tŷ Gwyn Residential Home, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, with a rounded shape at its northern end, which then extends on a south-easterly direction to finally form a rectangular-shape at its southern side, with a total area of 448.7 square metres, marked with stipple and labelled "B" on the deposited plan.

## ATODLEN 3

**Y darn o briffordd sydd i'w wella**

Darn siâp T o briffordd o fewn y safle a elwid gynt yn Gartref Preswyl Tŷ Gwyn, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, sydd â'i ran fyrraf

## SCHEDULE 3

**Length of highway to be improved**

A T-shaped length of highway within the site formerly known as Tŷ Gwyn Residential Home, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân NP44 4TX, with its shorter part stretching in a north-easterly direction,

yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, a'i ran hiraf yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain, sy'n cynnwys cerbytffordd 4.8 metr o led, sy'n cynnwys llwybr troed 1.8 metr o led a man troi o safon fabwysiadwy, ac sydd wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

and its longest part stretching in a south-easterly direction, comprising of a 4.8 metre wide carriageway, incorporating a 1.8 metre wide footpath and an adoptable standard turning head, and marked with cross hatching on the deposited plan.

**ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

Dymchwel yr hen gartref preswyl yng Nghartref Preswyl Tŷ Gwyn, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân, NP44 4TX ac adeiladu 15 o unedau tai fforddiadwy a gwneud gwaith cysylltiedig.

**SCHEDULE 4**

**The Development**

Demolition of former residential home at Tŷ Gwyn Residential Home, Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân, NP44 4TX and construction of 15 affordable housing units and associated works.

.